

CAPEL COFFA

CYFRIFON ANARCHWILIEDIG

FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2023

Rhif elusen cofrestredig: 239014

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023

Annwyl Gyfeillion,

Mae'n chwith meddwl mai dyma'r tro olaf i mi eich cyfarch fel eich Gweinidog drwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol. Dyma'r trydydd tro ar ddeg i mi wneud hynny! Ond y tro hwn fe wnafe hynny gyda chalon drom gan fod llinell yn y tywod wrth i mi orffen fel eich Gweinidog ar Sul Cyntaf Hydref.

Daeth yr amser i mi ymddeol wedi pum deg a thair o flynyddoedd yn y Weinidogaeth – hanner cant ohonynt fel Bugail ar eglwysi a thair ohonynt mewn swydd ganolog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghaerdydd. Bu'r dair blynedd ar ddeg ddiwethaf yn Weinidog yn eich plith yn Capel Coffa yn eithriadol o hapus i mi ac i Margaret. Gwerthfawrogais gynhesrwydd arbennig yr Eglwys a'r ffyddlondeb a fu i'r Oedfaon a'r gefnogaeth a gefais gennych bob amser.

Fel yr ysgrifennais yn fy Anerchaid cyntaf atoch teimlwn mai dod adref yr oeddwn gan mai yn y Cyffordd y cefais fy magu a'm heglwys pan yn ifanc oedd Caersalem sydd ond ychydig o lathenni o Gapel Coffa a bellach wedi ei droi yn Dŷ. Cofiaf yn dda am ddod i gystadlu yn blentyn i Eisteddfod y Groglith yn Capel Coffa ac eistedd yr Arholiad Ysgrifenedig yn yr ysgoldy ychydig ddyddiau cyn yr Eisteddfod.

Mae cofion bore oes wedi aros gyda mi weddill fy mywyd. Dyma'r blynyddoedd ffurfiannol – a Chapel Coffa yn rhan bwysig ohonynt. Hawdd i mi felly oedd derbyn y gwahoddiad i fod yn Weinidog i chwi. Ni chefais fy siomi! Buont yn flynyddoedd hapus iawn. Bellach yn fy hanes daeth yn amser dechrau tynnu'r rhwyfau i'r cwch.

Diolch yw'r neges sydd gennyf wrth eich cyfarch fel aelodau am y tro diwethaf fel hyn. Diolch am bob teyrngarwch a phob cydweithio a phob cefnogaeth a gefais gennych drwy gydol y dair mlynedd ar ddeg y bŵm yn Weinidog yn Capel Coffa. Diolch i chwi, fel aelodau, am ganiatau i mi gael dod yn agos atoch. Agorwyd ddrysau eich cartrefi i mi a phrofais groeso mawr ar bob aelwyd. Braint i mi oedd cael bod gyda chwi yn ystod y cyfnodau lleddf a'r cyfnodau llawen. Braint fu cael gwasanaethu o'r pulpud ac yn arbennig felly wrth Fwrdd y Cymun bob Mis. Bu'r Oedfaon hynny yn fendithiol iawn i mi. Mae gennym gymaint o gofion cysegredig a gwerthfawr i'w trysori wrth i ni edrych yn ôl dros y dair mlynedd ar ddeg ddiwethaf. Diolch i chwi am y rhodd hael a dderbyniais gennych ar y Sul olaf i mi yn eich plith ac am y rhodd o flodau hardd i Margaret.

Bellach mae'n gyfnod trosglwyddo'r awenau. Wrth wneud hynny gwn fod buddiannau yr Eglwys a dyfodol y dystiolaeth Gristnogol yn y Cyffordd yn ddiogel dan arweiniad ein Diaconiaid ymroddedig mewn cyfnod sydd yn anodd ac yn heriol.

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023

Dymunaf yn dda i chwi yn eich ymchwil am olynydd i mi. Wedi sicrhau Gweinidog eto yng Nghapel Coffa dymunaf iddo/iddi bob nerth a phob bendith wrth arwain yr Eglwys mewn cyfnod newydd.

Dymunaf bob bendith, wrth gwrs, i chwi holl aelodau Capel Coffa i'r dyfodol. Diolch eto i chwi i gyd!


Cofion cywir iawn.

Gareth

Adroddiad Yr Ymddiriedolwyr

Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023

CYFRIF AELODAETH CAPEL COFFA AM 2023	
Rhif yr aelodau ar ddiwedd 2022	59
Derbyniwyd Aelodau Newydd	<u>4</u>
	63
Bu farw	6
Collwyd o'n plith	<u>1</u>
RHIF YR AELODAETH AR DDIWEDD 2023	56



Arwyddwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar

Adroddiad Archwiliad Annibynnol

I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio

Rydym yn adrodd ar gyfrifon yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Rhagfyr 2023.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar archwilyd

Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad llawn y flwyddyn hon o dan adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau a bod archwiliad annibynnol ei angen.

Ein cyfrifoldeb ni yw;

- Archwilio'r cyfrifon o dan adran 145 o'r Ddeddf 2011
- Dilyn y canllawiau a osodwyd yn y cyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf 2011; ac
- Datgan os oes unrhyw beth wedi dod i'n sylw

Sail yr adroddiad archwiliad annibynnol

Mae ein harchwiliad wedi ei wneud yn unol ar gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion a gedwir gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynwyd i'r cofnodion. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth o eitemau anarferol yn y cyfrifon, a cheisio am esboniadau gennych chi fel ymddiriedolwyr ar fath eitem. Nid yw'r gwaith a ymgwymerir yn darparu tystiolaeth a fuasai ei hangen mewn archwiliad llawn ac o ganlyniad nid ydym yn datgan barn ynghylch a sail "cywir a theg" y cyfrifon, mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodir yn y datganiad isod;

Datganiad yr archwilydd annibynnol:

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad, does unrhyw fater wedi dod i'n sylw;

1. sydd yn rhoi achos rhesymol i ni gredu bod, mewn unrhyw agwedd berthnasol, bod y gofynion i;
- Gadw cofnodion y cyfrifon yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf 2011; ac
 - I baratoi cyfrifon sydd yn gyfatebol i'r cofnodion ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfrifyddu'r Ddeddf 2011

Heb gael eu bodloni; neu

2. sydd, yn ein barn, dylid tynnu sylw at, er mwyn galluogi i ni ddeall y cyfrifon.

Adroddiad Archwiliad Annibynnol

I ymddiriedolwyr Capel Coffa ar y cyfrifon sydd heb eu harchwilio




Pritchett & Co
Cyfrifwyr Siartredig
Cynghorwyr Treth Siartredig
16 Wynnstay Road
Bae Colwyn
LL29 8NB

.....

Dyddiad: 22/10/2024

Cymeradwyo'r cyfrifon gan yr aelodau

Yn unol â thelerau ein hymgysylltiad, rydym yn cymeradwyo'r wybodaeth ariannol, sy'n cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros yr wybodaeth ariannol, gan gynnwys priodoldeb y sail cyfrifyddu a darparu'r holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol i Pritchett & Co ar gyfer llunio'r wybodaeth ariannol.



Mrs Jean Barlow
Ar ran Capel Coffa, Cyffordd Llandudno

22/10/2024

CAPEL COFFA

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2023

Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm Cronfeydd 2023	Cyfanswm Cronfeydd 2022	
<u>Adnoddau a dderbyniwyd</u>					
Cyfanswm adnoddau a dderbyniwyd	25,088	11,310	36,398	37,210	
<u>Adnoddau a ddefnyddir</u>					
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	41,572	11,419	52,991	46,579	
<u>Adnoddau net cyn trosglwyddiadau</u>	(16,484)	(109)	(16,593)	(9,369)	
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	130	(130)	0	0	
<u>Adnoddau net am y flwyddyn</u>	(16,354)	(239)	(16,593)	(9,369)	
<u>Cronfeydd cronedig a ddygwyd ymlaen</u>	30,497	55,283	85,780	95,149	
<u>Cronfeydd cronedig a gariwyd ymlaen</u>	2	14,143	55,044	69,187	85,780

CAPEL COFFA
CYFRIF ELW A CHOLLEDD
Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2023

	<u>2023</u>		<u>2022</u>	
	£	£	£	£
<u>Incwm</u>				
Casgliadau Cyhoeddus		826.79		612.01
Casgliad y Weinidogaeth		9,150.00		10,646.00
Tanysgrifiadau Diolchgarwch		569.00		653.00
Cyfundebol		134.00		149.00
Er Cof		2,337.71		555.00
Coleg Yr Annibynwyr		30.00		75.00
Rhoddion Arbennig		385.00		630.00
Tallad yswiriant Covid		0.00		0.00
Incwm		72.00		84.00
Grant Y Cyfundeb		5,000.00		5,000.00
Arian Yr Ysgol Sul		0.00		0.00
Apel Wythnos Cymorth Cristnogol		180.00		222.00
Y Tyst		50.50		204.00
Ôl-daliad y Dreth Incwm		2,557.86		2,442.84
Rhent Ac Yswiriant yr Iard		680.75		2,042.25
Trydan P Mason		0.00		0.00
Llog Clwb Cynilo		134.21		31.38
Llog Arian Ymddiriedolaeth		824.02		134.19
Llog y Banc		693.27		86.18
Y Gynhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb		111.00		375.00
Arian trosglwyddedig		0.00		0.00
Cronfa Elusen i'w ddosbarthu		120.00		677.41
Ad-daliad Yswiriant		146.40		0.00
Apel Twrci		880.00		0.00
Cymdeithas Ddiwylliadol		40.00		0.00
Cronfa Elusen i'w drosglwyddo		140.00		0.00
Cyffredinol		25.00		0.00
		<u>25,087.51</u>		<u>24,619.26</u>
<u>Gwariant</u>				
Y Weinidogaeth Sefydlog	13,946.38		18,345.20	
Y Weinidogaeth Gynorthwyol	1,472.75		1,223.00	
Cynnal a Chadw	3,473.34		6,705.53	
Rhoddion	157.80		240.00	
Rhoddion i Gymorth Cristnogol	180.00		222.00	
Cymdeithas Dydd yr Arglwydd	0.00		25.00	
Trysorfa'r Gweddwon	100.00		100.00	
Cyngor Ysgollon Sul	0.00		0.00	
Cyfraniadau i'r Undeb	308.00		323.00	
Coleg	30.00		0.00	
Cronfa Deuluol	0.00		0.00	
Yswiriant y Capel a'r Iard	2,071.48		1,882.97	
Treth Dŵr	123.80		112.46	
Treuliau/Costau	13,022.61		2,012.49	
Trydan	4,902.43		1,653.31	
BT	466.06		683.79	
Y Genhadaeth	161.00		350.00	
Y Tyst	96.00		168.00	
Cronfa Elusen	40.00		317.41	
Trosglwyddwyd i Clwb Cynilo	0.00		0.00	
Teulu'r Cyffordd	0.00		100.00	
Apel Twrci	1,000.00		0.00	
Cymdeithas Ddiwylliadol	20.00		0.00	
		<u>41,571.65</u>		<u>34,464.16</u>
Incwm sy'n weddill ar ol gwariant		<u>(16,484.14)</u>		<u>(9,844.90)</u>

CAPEL COFFA
MANTOLEN O GYFRIF ARIANNOL
Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2023

		2023	2022
		£	£
<u>Asedau Sefydlog</u>			
Asedau Diriaethol	Nodyn 1	0.00	0.00
<u>Asedau Cyfredol</u>			
HSBC Prif Gyfrif		2,823.33	4,008.93
HSBC Cyfrif y Gymuned		319.70	1,488.53
HSBC Farchnad Ariannol		15,000.00	25,000.00
HSBC Drws Agored/Cronfa Organ		0.00	0.00
HSBC Cyfrif Eiddo Yr Ymddiriedolaeth - Dan gyfyngiadau		53,137.50	53,137.50
HSBC Gronfa Genhadol		0.00	0.00
HSBC Ysgol Sul		0.00	150.06
HSBC Clwb Cynilo		1,720.00	1,760.00
HSBC Cronfa Elusennau		186.31	235.08
		<u>73,186.84</u>	<u>85,780.10</u>
<u>Dyledion Cyfredol</u>			
Benthyclad		4,000.00	0.00
Arian y Clwb Cynilo		0.00	0.00
Y Genhadaeth i'w drosglwyddo i'r Undeb		<u>0.00</u>	<u>0.00</u>
		<u>4,000.00</u>	<u>0.00</u>
Asedau Cyfredol		<u>69,186.84</u>	<u>85,780.10</u>
Asedau Net		<u>69,186.84</u>	<u>85,780.10</u>
<u>Cronfeydd</u>			
Cronfeydd Cyfyngedig	Nodyn 2	55,043.81	55,282.64
Cronfeydd Anghyfyngedig		<u>14,143.03</u>	<u>30,497.46</u>
		<u>69,186.84</u>	<u>85,780.10</u>

Cymeradwyir y cyfrifon gan yr ymddiriedolwyr ar

ag arwyddwyd ar eu rhan gan;

CAPEL COFFA
NODIADAU IR CYFRIFON
FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 RHAGFYR 2023

1. Asedau Sefydlog - Adeilad y Capel

£

Cost

Ar 1 Ionawr 2022

0

Ar 31 Rhagfyr 2022

0

Dibrisiant

Ar 1 Ionawr 2022

0

Dibrisiant am y flwyddyn

0

Ar 31 Rhagfyr 2022

0

Gwerth Llyfr Net

Ar 31 Rhagfyr 2022

£0

Ar 31 Rhagfyr 2021

£0

Cafwyd adeilad y capel ei brisio yn broffesiynol gan Mr G C Butterworth, M.R.I.C.S am £75,000 ar 31ain Awst 2012

2. Cronfeydd Cyfyngedig

	<u>Ar</u> <u>01.01.23</u> <u>£</u>	<u>Adnoddau</u> <u>a dderbyniwyd</u> <u>£</u>	<u>Adnoddau</u> <u>a ddefnyddir</u> <u>£</u>	<u>Trosglwyddiadau</u> <u>£</u>	<u>Ar</u> <u>31.12.23</u> <u>£</u>
Drws Agored	0				0
Cronfa'r Organ	0				0
Rhoddion at y genhadaeth ar ran yr Eglwys	0				0
Mantolen yr Ysgol Sul	150		(20)	(130)	0
Mantolen y Clwb Cynilo	1,760	9,939	(9,979)		1,720
Tŷ'r Capel	53,138				53,138
Cronfa Elusenol	235	1,371	(1,420)		186
	<u>55,283</u>	<u>11,310</u>	<u>(11,419)</u>	<u>(130)</u>	<u>55,044</u>

Tŷ'r Capel- Crëwyd y gronfa hon yn dilyn gwerthiant y Tŷ Capel . Mae'r arian wedi ei gynnal mewn cyfrif unigol ag ar gael i'w ddefnyddio pan fydd yr holl ffynonellau ariannol eraill wedi cael eu defnyddio.

Mantolen Y Gymdeithas Odiwylliadol 2023

Derbyniadau

<u>2022</u>	<u>2023</u>
180 Aelodaeth	210
36 Casgliadau	191.5
0 Cinio Gŵyl Ddewi	285
0 Grantiau	0
0 Cyfarfod Agoriadol	0
0.3 Llog y Banc	3.91
0 Rhoddion	0
0 Pererindod	0
5.00 Manion	0.00
0.00 Te Mefus	314.00
0.00 Benthyciad JEB	42.00
<u>221.30</u>	<u>1046.41</u>

Taliadau

<u>2022</u>	<u>2023</u>
0 Costau'r Ysgrifennydd	0
0 Gŵyl Ddewi	0
97 Costau Siaradwyr	308.5
0 Rhoddion	0
0 Cyfraniad i Capel Coffa	0
0 Cyfarfod Agoriadol	0
0 Addaliad Pererindod	0
0 Pererindod	0
55.00 Costau Banc	65.20
0.00 Gŵyl Ddewi	300.00
0.00 Addaliad Benthyciad JEB	42.00
<u>152.00</u>	<u>715.70</u>

2022

Balans a ddygwyd ymlaen	123.64
Taliadau	-152.00
Derbyniadau	<u>221.30</u>
Balans a gariwyd ymlaen	<u>192.94</u>

2023

Balans a ddygwyd ymlaen	192.94
Taliadau	-715.70
Derbyniadau	<u>1046.41</u>
Balans a gariwyd ymlaen	<u>523.65</u>

**Adroddiad y Cyfrifwyr Siartredig i'r Ymddiriedolwyr ar wybodaeth ariannol
anarchwiliedig Capel Coffa**

Y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023

Yn unol â thelerau ein hymgysylltiad rydym wedi llunio gwybodaeth ariannol Capel Coffa sy'n cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled a'r nodiadau perthnasol o'r cofnodion ariannol a'r wybodaeth a'r esboniadau rydych wedi eu darparu.

Mae'r adroddiad wedi ei llunio ar eich cyfer chi, yn unol â'r telerau a amlinellwyd yn ein llythyr ymgysylltu. Rydym wedi ymgymryd â'r gwaith er mwyn ein galluogi i lunio'r wybodaeth ariannol y gofynnwyd amdani, rhoi gwybod i chi ein bod wedi gwneud hynny, a nodi'r materion hynny rydym wedi cytuno i'w nodi yn yr adroddiad hwn ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd nac yn atebol i unrhyw un ac eithrio i berchennog y busnes, mewn perthynas â'n gwaith neu'r adroddiad hwn.

Rydym wedi cynnal yr ymgysylltiad hwn yn unol â'r cyfarwyddyd technegol a gyhoeddwyd gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac rydym wedi cydymffurfio â'r canllawiau moesegol a osodir gan y Sefydliad.

Rydych wedi cymeradwyo'r wybodaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022 ac rydych wedi cydnabod eich cyfrifoldeb drosti, gan gynnwys priodoldeb y sail cyfrifyddu a darparu'r holl wybodaeth ac esboniadau a oedd eu hangen i'w llunio.

Nid ydym wedi gwirio cywirdeb a chyflawnrwydd y cofnodion ariannol na'r wybodaeth a'r esboniadau a rhoddwyd i ni, ac felly nid ydym yn datgan barn ar yr wybodaeth ariannol.



16 Wynnstay Road
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8NB

PRITCHETT & CO
Cyfrifwyr Siartredig

22/10/2022...

Cymeradwyo'r cyfrifon gan yr aelodau

Yn unol â thelerau ein hymgysylltiad, rydym yn cymeradwyo'r wybodaeth ariannol, sy'n cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros yr wybodaeth ariannol, gan gynnwys priodoldeb y sail cyfrifyddu a darparu'r holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol i Pritchett & Co ar gyfer llunio'r wybodaeth ariannol.



Mrs Jean Barlow

Ar ran Capel Coffa, Cyffordd Llandudno

22/10/2024